

Rhif: WG40038



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2020
Camau i'w cymryd: Ymateb erbyn 3 Tachwedd 2020

Trosolwg

Mae hwn yn ymgynghoriad ar Reolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020.

Sut i ymateb

Gellir e-bostio neu anfon yr ymatebion i:

Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGFPmail@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGFPmail@llyw.cymru

ffôn: 03000 628233

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Dyma'r manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR:
Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cefndir

Yn gyffredinol, mae Pridiannau Tir Lleol yn daliadau ariannol neu'n gyfyngiadau ar y defnydd o dir neu eiddo a osodir gan awdurdodau cyhoeddus o dan bwerau statudol. O dan Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gadw Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ("LLCR") sy'n cofnodi rhwymedigaethau sy'n effeithio ar dir ac eiddo o fewn eu hardal weinyddol. O dan Ddeddf Seilwaith 2015 ("Deddf 2015") trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros LLCR i'r Prif Gofrestrydd Tir a Chofrestrfa Tir EM.

Mae Deddf 2015 hefyd yn nodi'r weithdrefn ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Bridiannau Tir Lleol o'r awdurdodau gwreiddiol i Gofrestrfa Tir EM. Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol yw'r awdurdodau gwreiddiol. Ar ôl i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo, bydd Cofrestrfa Tir EM ar ran y Prif Gofrestrydd Tir yn gyfrifol am gynnal LLCR, ac ers hynny maent wedi datblygu cofrestr ddigidol ganolog y gellir cael mynediad iddi drwy borth ar-lein. Y nod yw darparu profiad safonol, cyson i gwsmeriaid a gwella amseroedd dychwelyd chwiliadau. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* gan Gofrestrfa Tir EM [yma](#).

Mae Pridiannau Tir Lleol yn fater a gadwyd yn ôl ac eithrio'r ffi ragnodedig a'r dull o dalu am chwiliad swyddogol (a elwir hefyd yn 'chwiliad LLC1'), sydd wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru. Gan fod Deddf 2015 bellach mewn grym, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddrafftio deddfwriaeth i ddiwygio lefel y ffi i hwyluso cydymffurfio â Deddf 2015.

Diben yr ymgynghoriad yw rhoi sylwadau ar yr offeryn statudol i ddiwygio'r ffi a godir a'r dull talu ar gyfer chwiliadau Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru. I gyd-fynd â'r ymgynghoriad, mae Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020 drafft ("y Rheolau drafft") a fydd yn rhoi'r ffioedd a'r dulliau talu newydd ar waith o 1 Ebrill 2021.

Mae'r ymgynghoriad ar agor am gyfnod o 12 wythnos rhwng 11 Awst 2020 a 3 Tachwedd 2020.

Pa newidiadau a gynigir?

Diwygio'r Ffi

Mae'r ffi gyfredol yng Nghymru wedi'i phennu yn £6 ar gyfer chwiliad swyddogol o LLCR, ac yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol. Bydd y rheolau drafft yn cynyddu'r ffi i £15 ar gyfer chwiliad swyddogol o LLCR, gan eu halinio â'r ffi a bennir yn Lloegr. Nodir y ffioedd yn yr Atodlen i'r Rheolau drafft.

Mae angen un ffi gyffredinol ar gyfer y system ddigidol, ganolog newydd, o dan Gofrestrfa Tir EM er mwyn iddi weithio'n effeithlon. Os bydd ffioedd yng Nghymru yn aros yn £6, byddai hyn yn arwain at groes-gymhorthdal gan brynwyr tir yn Lloegr. Yn ogystal, os na chaiff y ffi ei diwygio, gall olygu na fydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu trosglwyddo eu priod Gofrestri Pridiannau Tir Lleol i'r Prif Gofrestrydd Tir gan arwain at beidio â gweithredu darpariaethau perthnasol Deddf 2015 yng Nghymru.

Ni fydd y Rheolau drafft yn dod i rym ond mewn ardal weinyddol awdurdod lleol yng Nghymru o'r dyddiad a bennir mewn hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir gan y Prif Gofrestrydd Tir ar yr awdurdod lleol perthnasol ar gyfer yr ardal honno, yn unol â pharagraff 40 (1), Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015. Tan hynny bydd y drefn ffioedd bresennol o dan Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 yn parhau.

Dull Talu

Mae Rheol 3 yn rhagnodi pryd y mae ffioedd am wasanaethau yn daladwy a sut y telir y ffioedd am y gwasanaethau hynny.

Dirymu

Mae Rheol 4 yn dirymu Rheol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt fel y maent yn gymwys yng Nghymru. Ac eithrio'r darpariaethau hynny, dirymwyd Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977 gan Reolau Pridiannau Tir Lleol 2018. Yng Nghymru, ar ôl i'r cyfrifoldeb dros LLCR gael ei drosglwyddo o bob awdurdod lleol i'r Prif Gofrestrydd Tir, bydd Rheol 14 ac Atodlen 3 yn peidio â bod yn effeithiol.

Mae Rheol 5 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reolau Pridiannau Tir Lleol 2018.

Y camau nesaf

Rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i geisio barn am y Rheolau drafft.

Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, caiff yr holl ymatebion eu dadansoddi a bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r Rheolau drafft. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bwriedir gosod y rheolau drafft gerbron Senedd Cymru fel y gallant ddod i rym ar 1 Ebrill 2021 neu cyn hynny.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Enw:

E-bost:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad:

Cod Post:

**Sefydliad (Ile y
bo'n bethnasol)**

Dychwelyd y ffurflen hon

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **3 Tachwedd 2020**.

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost i:

LGFPMail@llyw.cymru

Wrth anfon eich ymateb drwy e-bost, gofynnwn ichi roi **Ymgynghori ar Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2020** fel teitl i'ch e-bost.

Fel arall, cwblhewch y ffurflen ymateb â'i dychwelyd yn y post i'r cyfeiriad canlynol:

Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau Gweithlu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cwestiwn 1: Rydym yn gofyn am eich barn ar gynnwys y rheolau drafft a'u cymhwysiad ymarferol. Pa sylwadau neu sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r rheolau drafft?

Nodwch yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch hynny yma.